

Gêm Gwneud Cynigion

Gweithgaredd sy'n annog gwaith grŵp a rheoli cyllideb yw hwn.

Deunyddiau:

- Dalen fawr o bapur neu fwrdd gwyn
- Pennau ffelt/Pennau ysgrifennu
- Amrywiaeth o eitemau fel rhaffau, platiau papur, dalennau o bapur, cylchynnau hwla ac ati
- Arian Papur
- Conau/marcwyr ar gyfer yr ardal

Sut:

Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cael eu rhannu'n ddau grŵp a rhoddir £100 o arian papur iddyn nhw.

Amlinellir ardal 10/15 troedfedd.

Dywedir wrth y grwpiau bod yn rhaid iddyn nhw ddewis eitemau maen nhw'n gallu'u defnyddio i adeiladu pont, fel bod pob un ohonyn nhw'n gallu croesi o un ochr i'r llall heb gyffwrdd â'r llawr.

Y nod yw gwneud cynigion am yr eitemau maen nhw eu heisiau. Mae pob grŵp yn cael darn o bapur ac ysgrifbin ac mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu pa eitem maen nhw am wneud cynnig amdani, a faint maen nhw'n fodlon ei dalu. Gallan nhw wario beth bynnag maen nhw eisiau ei wario, ond rhaid iddyn nhw beidio â gwario mwy na £100.

Y mae'r eitemau'n mynd i'r cynigwyr uchaf. (Os bydd dau grŵp yn cynnig yr un swm am eitem, yna bydd yn rhaid iddyn nhw wneud cynnig arall.)

Ar ôl iddyn nhw gael eu heitemau, mae'n rhaid iddyn nhw weithio fel tîm i adeiladu'u pont mor gyflym â phosib. Y tîm sy'n cyrraedd y pen arall gyntaf sy'n ennill.

Pwyntiau trafod:

- A oedd hi'n anodd gwneud cynigion am yr eitemau a chytuno ar bris?
- A oeddech chi'n anghytuno â'r modd o adeiladu'r bont?
- Beth fuasech chi wedi'i wneud yn wahanol?
- Sut fuasech chi wedi newid y prosiect pe bai'r deunyddiau wedi costio mwy na'r arian oedd gennych chi?
- A fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn haws pe bai gennych chi fwy o arian?
- Pan gafwyd anghytuno yn y grŵp, sut aed i'r afael â hyn?
- A ddeliwyd â hyn yn deg ynteu'n annheg yn eich barn chi?